

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 14 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cyngorwyr
Representing Bridgend County Borough Council – Councillors D. Lewis a D. Patel.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cyngorwyr M. Michael (Cadeirydd) a
Mrs. N. Mackie.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cyngorwyr E. Williams (Is-gadeirydd) a P.
Drake (Yn dirprwyo ar ran Cyngorydd J.W. Thomas).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd J.W. Thomas (Cyngor Bro Morgannwg)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2021 a'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 2il Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4: CRONFA WEITHREDU (DSA151) –

PENDERFYNWYD – BOD y £46k a gedwir o fewn Cronfa Weithredu'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) i ariannu costau sefydlu'r GRhR a nodir fel cyflogwr ar wahân o dan ymbarél Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdodau partner yn unol â chyfradd cyfraniadau 2015/16.

Rhesymau dros benderfyniadau

O ganlyniad i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y ffurflen gyflogres flynyddol a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro, nid oedd yn ofynnol mwyach i'r GRhR gael ei nodi fel cyflogwr ar wahân o fewn y Gronfa. Gellid nawr sefydlu Asedau a Rhwymedigaethau pensiwn y GRhR yn gywir gyda chostau prisio yn cael eu talu o fewn y cyllidebau refeniw presennol.

EITEM AGENDA 5: CYNNIG CYLLIDEB DDRAFFT GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR 2022/23 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y Gyllideb Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn cael ei chymeradwyo.
- (2) BOD gofyn i'r Awdurdodau unigol gymeradwyo'n ysgrifenedig y Gyllideb Arfaethedig ar gyfer 2022/23 erbyn 10 Mawrth, 2022.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Caniatáu i'r gyllideb gael ei chwblhau cyn dechrau 2022/23.

EITEM AGENDA 6: TROSOLWIG A DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei gytuno.
- (2) O'r tanwariant o £250k ar gyfer 2020/21, cedwir £100k gan y Gwasanaeth i dalu am y costau ymchwilio gweddilliol o ddechrau 2021/22 a bod y balans yn cael ei ddychwelyd i bartneriaid ar sail eu tanwariant 2020/21 diwygiedig.
- (3) BOD y Cynllun Iechyd y Porthladd 2021/22 drafft yn cael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Gwasanaeth gadw £100k i dalu am gostau ymchwilio gweddilliol ac i'r balans sy'n weddill gael ei ddychwelyd i'r Awdurdodau partner
- (3) Ar ôl ystyried cynnwys y Cynllun Iechyd y Porthladd 2021/22 drafft.

EITEM AGENDA 7: FFIOEDD A THALIADAU GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO
A RENNIR 2022/23 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynigion codi tâl a ffioedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, fel y'u nodir yn yr adroddiad, yn cael eu cytuno i'w gweithredu o 1 Ebrill, 2022.

(2) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Swyddog Adran 151 Dros Dro Bro Morgannwg yn cael awdurdod dirprwyedig i archwilio'r posibilrwydd o weithredu neu gyflwyno trefn codi tâl a ffioedd is ar gyfer 2022-23, ac i drafodaethau ar hyn gael eu cynnal gyda Swyddogion Adran 151 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn caniatáu i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro archwilio'r posibilrwydd o weithredu trefn codi tâl a ffioedd is ar gyfer 2022/23.